| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **10 Mehefin 2014** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Barbara Smith - Aelod Arweiniol Moderneiddio** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Alan Smith, Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Gwella Blynyddol 2013-14** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn ymwneud â'r asesiad blynyddol o ragolygon y Cyngor ar gyfer gwella, a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth i'r Aelodau ar Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB) y Cyngor. Gweler Atodiad 1.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Dylai'r Cyngor nodi cynnwys yr adroddiad sydd ynghlwm a'r cynigion ar gyfer gwella sydd ynddo.

## 4. Manylion am yr adroddiad.

Dan y Mesur Llywodraeth Leol, mae Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn cynnal adolygiad blynyddol ar gynnydd y Cyngor tuag at gyflawni ei amcanion a'i ragolygon ar gyfer parhau i wella yn ystod y flwyddyn i ddod.

Ar gyfer y flwyddyn 2013-14, casgliad SAC oedd:

- Gwnaeth Sir Ddinbych gynnydd da wrth gyflwyno gwelliannau ym mhob un o'i amcanion blaenoriaeth ar gyfer 2012-13, ond mae angen gwelliannau pellach mewn rhai meysydd allweddol;

- Mae adolygiadau herio gwasanaethau'r Cyngor a mesurau eraill i hunanwerthuso ei berfformiad yn gadarn;

- Mae cynlluniau gwella'r Cyngor, a'i drefniadau i gefnogi gwelliant, yn gadarn.

- Mae'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

Os bydd gan SAC bryderon sylweddol ynghylch y cynnydd a wnaed gan y Cyngor neu’r cyfeiriad y mae’n ei gymryd, bydd yn gwneud argymhellion ffurfiol i newid. Nid yw adroddiad Sir Ddinbych yn cynnig unrhyw argymhellion ffurfiol eleni (nid ydym erioed wedi derbyn unrhyw argymhellion mewn gwirionedd) sy’n adlewyrchu barn gadarnhaol SAC o gynnydd y Cyngor.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu ein bod yn gwneud popeth yn iawn, mae’n anochel y bydd angen gwneud mwy o waith ar rai pethau ac mae Adroddiadau Blynyddol y llynedd ac eleni’n gwneud rhai ‘cynigion ar gyfer gwella’. Rydym wedi gwneud cynnydd da gyda’r holl gynigion a wnaed yn adroddiad 20012/13 ac eleni mae’r Arolygwyr wedi gwneud dau gynnig pellach y maent yn teimlo a fydd yn helpu’r Cyngor i barhau i symud ymlaen. Y rhain yw:

- P1 - *Er mwyn cyflawni ei nod o foderneiddio gwasanaethau, dylai'r Cyngor barhau i fynd i'r afael â gwendidau yn ei Wasanaeth Adnoddau Dynol Corfforaethol.*

- P2 - *Dylai'r Cyngor sicrhau bod swyddi a chyfrifoldebau’n glir er mwyn cyflawni’r amcan tai fforddiadwy.*

Mae’r Cyngor yn derbyn y ddau gynnig hyn ac mae eisoes yn cymryd camau i fynd i'r afael â nhw. O ran y cynnig yn ymwneud â'r gwasanaeth AD, rydym yn parhau i weithio ar gynllun gweithredu i fynd i'r afael â’r diffygion a nodwyd. Mewn perthynas â’r mater tai fforddiadwy, mae grŵp tasg o aelodau a Swyddogion allweddol yn cael ei sefydlu i adolygu ein hamcanion yn y maes pwysig hwn.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid oes angen penderfyniad, ond mae adolygiad SAC ar gynnydd y Cyngor yn rhan bwysig o ddeall ein cynnydd tuag at gyflawni ein Blaenoriaethau Corfforaethol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed EqIA wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Amherthnasol.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Mae swyddogion wedi adolygu cywirdeb yr adroddiad cyn ei gyhoeddi. Bydd yn cael ei gyflwyno i Llywodraethu Corfforaethol ym mis Gorffennaf.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes angen.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Byddai risg i'r Cyngor pe na bai'r cynigion ar gyfer gwella a wnaed gan SAC yn cael eu gweithredu.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Nid oes angen penderfyniad.